Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017: Asesiad Manwl

Nodyn cyfarwyddyd

**Cyfeirnod:** GN078

**Perchennog y ddogfen:** Pennaeth Busnes, Rheoleiddio a Thrwyddedu

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut i sgrinio prosiectau, cynlluniau a gweithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 ('Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr' o hyn ymlaen).

Mae canllawiau ar wahân ar gael ar gyfer sgrinio a chwmpasu, a dylid darllen y rheiny cyn y ddogfen ganllawiau hon.

## Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unrhyw un sy'n dylunio prosiectau a gweithgareddau a allai effeithio ar yr amgylchedd dŵr.

Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ategu unrhyw gais ar gyfer gweithgareddau a allai achosi dirywiad i gorff dŵr Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, neu atal hwnnw (neu ardaloedd gwarchodedig) rhag cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun rheoli basn afon.

Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd angen i chi gyflogi ymgynghorydd sydd â phrofiad a chymwysterau addas i gynnal asesiad cydymffurfedd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Efallai y bydd arnoch angen fewnbwn technegol arbenigol hefyd, yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r effeithiau posibl.

## Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Y Tîm Cynllunio Dŵr Integredig, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Hanes y fersiynau

| Fersiwn y ddogfen | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | 26 Mehefin | Cyhoeddwyd y ddogfen |
| 2.0 | 5 Mehefin | Mân newidiadau o ran y testun |

Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2028

I roi gwybod am faterion neu broblemau gyda'r canllawiau hyn, anfonwch neges e-bost i: guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

# Cam 3: Asesiad manwl

Dylech gynnal asesiad manwl lle mae 'Cam 2: Cwmpasu' wedi nodi bod elfen o'ch cynnig yn:

- gallu achosi dirywiad yng nghyflwr unrhyw elfen;
- gallu effeithio ar gorff dŵr statws uchel neu gorff dŵr â statws uchel o ran morffoleg / hydromorffoleg;
- atal corff dŵr neu ardal warchodedig rhag cyflawni'r amcan a nodir yn y cynllun rheoli basn afon perthnasol;
- peryglu mesurau lliniaru corff dŵr sydd wedi ei addasu'n helaeth.

Dylech asesu beth fydd yr effaith yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw neu ddatgomisiynu, yn dibynnu ar ba rai sydd wedi cael eu hystyried drwy'r cwmpasu i asesiad manwl.

Bydd angen i chi ystyried effeithiau posibl eich cynnig a nodi ffyrdd o osgoi neu leihau effeithiau. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried lliniaru yng **nghyfnod asesu opsiynau dylunio** eich cynnig. Mae ystyried lliniaru **yn gynnar** yn golygu y gellir ei gynnwys yn nyluniad y prosiect. Gall hyn helpu i osgoi'r angen i newid y dyluniad er mwyn ymgorffori lliniaru yn ddiweddarach.

Dylid teilwra'r asesiad i'r gweithgaredd, y lleoliad, a'r risg bosibl i'r derbynyddion. Bydd angen asesiad manylach ar gyfer gweithgareddau mwy cymhleth, risg uwch sydd ag amryfal effeithiau.

Yr hyn y mae angen i chi ei wneud:

- Disgrifiwch unrhyw fesurau osgoi / lliniaru, a allai ddileu'r risg o ddirywiad neu atal cyflawni amcanion corff dŵr. Cynhwyswch fanylion sut y byddai mesurau o'r fath yn cael eu rhoi ar waith.
- Os ydych chi wedi nodi mesurau nad ydynt yn dechnegol ymarferol, neu sy'n anghymesurol o gostus, dylech gynnwys y rhain yn yr asesiad, ynghyd â'r rheswm pam y gwnaethoch chi eu diystyru.

Os gallai eich cynnig achosi dirywiad, neu atal corff dŵr neu ardal warchodedig rhag cyflawni ei hamcanion amgylcheddol, **dim ond** os yw'n bodloni gofynion rheoliad 19 o Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 y gellir **caniatáu iddo fwrw ymlaen.**

## Asesu am ddirywiad

Oherwydd eu cynefin ffisegol prin, dilychwin neu bron yn ddilychwin, cyrff dŵr â statws cyffredinol uchel neu statws uchel o ran morffoleg a hydromorffoleg sydd **yn y perygl mwyaf o ddirywio.**

Dirywiad yw pan fydd statws elfen ansawdd (derbynnydd) yn gostwng o un dosbarth, hyd yn oed os nad yw'r gostyngiad hwnnw'n arwain at ostyngiad yn nosbarthiad y corff dŵr cyfan. Er enghraifft, elfennau ansawdd biolegol o statws da i gymedrol. Os yw elfen ansawdd eisoes ar y statws isaf, mae unrhyw ostyngiad yn ei chyflwr yn cyfrif fel dirywiad.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth a chyfiawnhad lle **gallai** eich cynnig achosi dirywiad, naill ai i'r derbynnydd neu'n anuniongyrchol drwy'r cynefin cynhaliol, e.e. rhyddhau gwaddod gan orchuddio graean silio pysgod. Mae angen i chi ystyried a ydyw'r effaith yn:

- uniongyrchol ac yn digwydd ar unwaith – bydd yn digwydd ar yr un pryd ac yn yr un lle â'r gweithgaredd;
- oedi a/neu'n digwydd yn anuniongyrchol – bydd yn digwydd yn ddiweddarach neu ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys mewn cyrff dŵr eraill sydd wedi eu cysylltu'n hydrolegol, e.e. newidiadau posibl i brosesau ffisegol neu effeithiau posibl ar bysgod mudol.

Cofnodwch ai eich cynnig chi yw unig achos y dirywiad, neu a allai weithredu ar y cyd â gweithgareddau eraill i achosi'r dirywiad fel y nodwyd yn y gwaith cwmpasu.

## Lliniaru effeithiau posibl

Dylai eich asesiad ystyried sut y bydd unrhyw effeithiau a nodwyd yn cael eu lliniaru. Mae hyn yn cynnwys osgoi a/neu leihau effeithiau.

Os yw'r asesiad yn dangos y gallai eich cynnig achosi dirywiad, rhaid i'r asesiad ystyried ffyrdd o leihau'r effaith cyn belled ag y bo modd. Gallai hyn gynnwys:

- maint neu raddfa'r gweithgaredd;
- lleoliad a hyd y gweithgaredd;
- ffyrdd o weithio;
- y deunyddiau neu'r sylweddau a ddefnyddir;
- lliniaru mewnol, e.e. ysgol bysgod.

## Atal cyflawni statws / potensial da

Rhaid i'ch asesiad ystyried a fydd y gweithgaredd yn peryglu'r corff dŵr o ran cyflawni ei amcanion fel y'u nodir yn y cynllun rheoli basn afon cyfredol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am amcanion cyrff dŵr, mesurau lliniaru ar gyfer cyrff dŵr sydd wedi eu haddasu'n helaeth, a mesurau lleol (e.e. dalgylchoedd cyfle) yn Arsylwi Dyfroedd Cymru.

Yr amcan o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 yw i bob corff dŵr gyflawni statws neu botensial da, oni bai fod amcan amgen cyhoeddedig o lai na da. Lle nad yw'r amcan yn dda (h.y. cymedrol, gwael neu ddrwg), rhaid i'ch asesiad ystyried a fyddai eich cynnig yn peryglu'r corff dŵr rhag cyflawni statws (neu botensial) da nawr neu yn y dyfodol.

Gall amcanion corff dŵr gael eu peryglu gan weithgareddau sydd:

- yn atal gweithgareddau gwella rhag digwydd;
- yn lleihau effeithiolrwydd mesurau lleol / cenedlaethol;
- yn peryglu mesurau lliniaru mewn cyrff dŵr sydd wedi eu haddasu'n helaeth (gweler yr adran nesaf).

## Mesurau lliniaru peryglus mewn corff dŵr artiffisial neu wedi ei addasu'n helaeth

Os yw eich cynnig mewn corff dŵr sydd wedi ei addasu'n helaeth, rhaid i chi asesu a fydd unrhyw effaith ar fesurau lliniaru perthnasol sy'n gysylltiedig â'r defnydd(iau) dynodedig. Rhaid i chi ddangos na fydd eich cynnig yn peryglu'r mesurau lliniaru sydd ar waith nawr, neu sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Gallwch ddod o hyd i bob mesur lliniaru sy'n berthnasol i gorff dŵr sydd wedi ei addasu'n helaeth, a statws cyfredol y mesurau hyn ar Arsylwi Dyfroedd Cymru. Dylech chi ddefnyddio:

- y daenlen Defnydd sydd wedi ei Addasu'n Helaeth a Mesurau Lliniaru (y gellir ei gyrchu trwy'r botwm dewislen yn y gornel dde uchaf o Arsylwi Dyfroedd Cymru);
- y data diweddaraf a gyhoeddwyd yn eich asesiad.

Bydd angen ystyried effaith bosibl eich cynnig ar fesurau lliniaru fesul achos ar gyfer pob corff dŵr sydd wedi ei addasu'n helaeth yn unigol. Cysylltwch â ni am gyngor pellach.

## Amcanion ardal warchodedig

Rhaid i chi ystyried yr effaith y gallai eich cynnig ei chael ar bob ardal warchodedig a nodwyd yn ystod y cyfnod cwmpasu.

Rhaid i'ch asesiad ddangos sut na fydd eich cynnig yn atal yr ardal warchodedig rhag cyflawni ei hamcanion. Mae gwybodaeth am bob amcan ardal warchodedig i'w chael yn y ddogfen 'Cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017: Cwmpasu' yn Atodiad 1.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ardaloedd gwarchodedig yn atodiad trosolwg y cynllun rheoli basn afon.

## Casgliad

Rhowch gasgliad clir ynghylch a fydd y risgiau posibl o'ch cynnig yn achosi dirywiad neu'n atal y corff dŵr a/neu'r ardal warchodedig rhag cyflawni ei amcanion ai peidio.  Efallai y cewch hi'n ddefnyddiol cwblhau tabl penderfyniadau cryno.

Rhaid i chi nodi’n glir yr holl fesurau osgoi neu liniaru sydd wedi eu cynnwys yn eich cynnig.

**Ni ellir caniatáu na thrwyddedu** unrhyw gynnig a **allai** achosi dirywiad yn statws corff dŵr a/neu atal y corff dŵr neu’r ardaloedd gwarchodedig rhag cyflawni eu hamcanion oni bai y gellir cymhwyso rhai amodau. **Yn yr achos hwn ar gyfer trwydded neu ganiatâd gan CNC,** cysylltwch â ni **cyn gynted â phosibl.** Ar gyfer unrhyw fath arall o ganiatâd neu gydsyniad, cysylltwch â’r corff rheoleiddio perthnasol.

Lle na ellir cymhwyso amodau trwydded, neu lle nad ydynt yn osgoi’r risgiau o’ch cynnig yn llwyr, bydd angen ystyried amodau rheoliad 19 o Reoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017.

# Manylion cyswllt CNC

Ffoniwch ni ar 0300 065 3000 (Llun–Gwener, 9am–5pm). Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Anfonwch neges atom ar ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Neu llenwch y ffurflen i gysylltu â ni.